Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Treialu Cynllun Braenaru i Achosion Cyfraith Breifat

## Gwerthusiad o'r Broses a Dadansoddiad Ariannol Archwiliadol: Crynodeb Gweithredol


**Dr Charlotte Barlow, Dr Helen Richardson Foster, Dr Clare Scollay, yr Athro Christine Barter a'r Athro Nicky Stanley**

Canolfan Connect, Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn

**Agata Miskowiec a William Carruthers**

Mutual Ventures

**Gyda Vicki Morris a Sophie Carter**

Y Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder



Cyfres Ddadansoddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

2025

Mae'r Rhaglen Data a Dadansoddi yn bodoli i wella'r gwaith o lunio polisïau, gwneud penderfyniadau ac ymarfer gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu data a chyngor cadarn, amserol a pherthnasol sy'n deillio o'r gwaith ymchwil a dadansoddi a wneir gan ddadansoddwyr yr adran a chan y gymuned ymchwil ehangach.

**Ymwadiad**

Safbwyntiau'r awduron yw'r rheini a fynegir ac ni chânt eu rhannu o reidrwydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (ac nid ydynt ychwaith yn cynrychioli polisi'r Llywodraeth).

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2025

OGL

© **Hawlfraint y Goron 2025**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth y mae ei hawlfraint yn eiddo i drydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn researchsupport@justice.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/research.cy

ISBN 978 1 911691 63 1

## Cydnabyddiaeth

Hoffai'r awduron ddiolch yn ddiffuant i'r holl gyfranogwyr a neilltuodd amser gwerthfawr yn eu hamserlenni prysur i siarad â ni fel rhan o'r prosiect hwn. Hoffem ddiolch hefyd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am roi cyfle inni arwain y broses o werthuso'r gwaith pwysig hwn. Yn enwedig, hoffem ddiolch yn ddiffuant i Dîm Ymchwil Cyfiawnder Teulu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am ei gymorth gwerthfawr drwy gydol y gwerthusiad, ac i'n hadolygwyr cymheiriaid allanol am eu cyfraniadau. Sylwch mai barn yr unigolion sy'n gweithio o fewn y cynllun peilot yw'r rheini a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nad ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau'r sefydliad.

## Yr awduron

Dr Charlotte Barlow, Darllenydd mewn Cyfiawnder Troseddol a Phlismona, Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn (UCLan)

Dr Helen Richardson Foster, Uwch-gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Connect, UCLan

Dr Clare Scollay, Cymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Connect, UCLan

Yr Athro Christine Barter, Athro Atal Trais Rhyngbersonol, UCLan

Yr Athro Nicky Stanley, Athro Gwaith Cymdeithasol, UCLan

Agata Miskowiec, Prif Ymgynghorydd, Mutual Ventures

William Carruthers, Ymgynghorydd Cyswllt, Mutual Ventures

Vicki Morris, Is-gyfarwyddwr y Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder

Sophie Carter, Pennaeth Ymarfer Cyfiawnder Teulu yn y Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder

# Crynodeb Gweithredol

## Cyd-destun yr Ymchwil

Yn sgil cyhoeddi adroddiad 'Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat' (Adroddiad y Panel Niwed, 2020),[1] sefydlwyd dau Lys Braenaru i dreialu dull ymchwiliol o ymdrin ag achosion cyfraith breifat, y naill yng Ngogledd Cymru a'r llall yn Dorset, o fis Chwefror 2022 ymlaen. Nodau'r Cynllun Braenaru oedd gwella profiadau teuluoedd mewn achosion trefniadau plant, lleihau achosion lle y bydd dioddefwyr-goroeswyr cam-drin domestig yn profi trawma o'r newydd, lleihau'r amser y bydd teuluoedd yn ei dreulio yn y llys, a gwella'r cydgysylltiad rhwng asiantaethau.

Yn lle'r broses lys flaenorol – o'r enw'r Rhaglen Trefniadau Plant (CAP) – bu i'r Cynllun Braenaru gyflwyno model newydd a oedd yn cynnwys tri cham: (1) casglu gwybodaeth a'i hasesu, (2) ymyriadau a/neu wrandawiad penderfynu, a (3) cam adolygu. Yn benodol, bu i'r model Braenaru gyflwyno:

- Swyddog Cynnydd Achosion[2] penodedig yn nhîm gweinyddol y llys a fydd yn canolbwyntio ar gydgysylltu achosion ac yn gweithredu fel swyddog cyswllt a chymorth ar gyfer teuluoedd,
- arian uniongyrchol i asiantaethau cymorth cam-drin domestig er mwyn iddynt gynnal asesiadau risg Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar sail Anrhydedd[3] a darparu cymorth i ddioddefwyr-goroeswyr mewn achosion Braenaru priodol,
- trefn o fynd i'r afael yn gynnar â'r gwaith o reoli achosion, gan ganolbwyntio ar gasglu gwybodaeth ar ddechrau proses y llys, a

[1] Assessing risk of harm to children and parents in private law children cases - GOV.UK

[2] Er bod swyddi 'Swyddog Cynnydd Achosion' wedi bodoli o'r blaen mewn llysoedd teulu, mae'r cyfrifoldebau a ysgwyddir o dan y model Braenaru yn wahanol, ac felly fe'i hystyrir yn swydd newydd yn yr adroddiad hwn.

[3] Mae'r Model Adnabod, Asesu a Rheoli Risg Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar sail Anrhydedd yn offeryn syml y gall ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion sy'n dioddef cam-drin domestig ei ddefnyddio i'w helpu i bennu'r rheini sydd mewn perygl mawr o niwed.

- canolbwyntio ar roi mwy o lais i'r plentyn drwy sicrhau bod y broses o gasglu gwybodaeth yn canolbwyntio ar safbwyntiau a phrofiadau'r plentyn o ddechrau'r achos.

Bwriad yr ymchwil hon oedd dod i ddeall sut y cafodd y Cynllun Braenaru ei roi ar waith a sut y mae'n gweithredu ar y ddau safle peilot, a'u cymharu â dau safle sy'n dal i ddefnyddio'r broses CAP. Roedd yr ymchwil hon hefyd yn ceisio ymchwilio i'r costau, a phwyso a mesur elfennau hanfodol ac elfennau hyblyg y model Braenaru a allai osod sail ar gyfer unrhyw gamau i'w gyflwyno'n ehangach yn y dyfodol. Roedd yr ymchwil yn cynnwys gwerthusiad o'r broses a'r camau i'w rhoi ar waith, ynghyd â dadansoddiad ariannol archwiliadol. Roedd yn bwriadu mynd i'r afael â'r amcanion a ganlyn:

1. Deall sut y cafodd y model Braenaru ei roi ar waith yn y ddwy ardal Braenaru, gan fapio'r gwahaniaethau rhwng y ddau safle Braenaru a rhwng y safleoedd Braenaru a'r safleoedd CAP.
2. Pwyso a mesur y profiadau o weithredu'r cynllun peilot o safbwyntiau'r partneriaid sy'n rhoi'r system ar waith.
3. Amcangyfrif y gost fesul achos o dan y model Braenaru ac o dan y model CAP presennol.

Mae'n bwysig nodi na fu i'r gwerthusiad hwn archwilio effaith y Cynllun Braenaru ar ganlyniadau'r llysoedd. Bu iddo ganolbwyntio ar ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymwneud â chyflwyno'r model Braenaru a'i roi ar waith. Ni chynhaliwyd ymchwil uniongyrchol gyda phlant na theuluoedd yn ystod cam cyntaf y gwerthusiad, ond mae ail ran gwerthusiad y cynllun peilot hwn yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, a bydd hwnnw yn pwyso a mesur eu profiadau.

## Methodoleg

O ran gwerthuso'r broses (amcanion 1 a 2),  cynhaliwyd cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig â 67 o gyfranogwyr rhwng mis Medi 2023 a mis Ionawr 2024. Roeddent yn cynnwys gweithwyr proffesiynol rheng flaen a oedd yn rhoi proses y Cynllun Braenaru neu'r broses CAP ar waith, ynghyd â'r rheini a oedd yn ymwneud â goruchwylio'r gwaith cyflawni ar bob safle. Ymhlith y rhai a gafodd eu cyf-weld oedd cynrychiolwyr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (HMCTS), y farnwriaeth, ynadon, Gwasanaeth

Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) a Cafcass Cymru, gwasanaethau cymorth cam-drin domestig, ac awdurdodau lleol. I darfu cyn lleied â phosibl ar staff, cynhaliwyd y cyfweliadau ar-lein drwy Microsoft Teams a thros y ffôn.

Roedd y dadansoddiad ariannol (amcan 3) yn cynnwys gwaith manwl i gasglu data meintiol, lle'r oedd y rheini ar gael. I ategu'r data meintiol, a lle nad oedd unrhyw setiau data meintiol eisoes ar gael i'w defnyddio, cynhaliwyd ymchwil ansoddol bellach gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen.

## Y prif ganfyddiadau

Mae prif ganfyddiadau'r ymchwil hon yn canolbwyntio ar fanteision y model Braenaru, ei heriau, y dadansoddiad ariannol, a'r gwersi o ran cyflwyno'r model mewn ardaloedd eraill.

**Manteision y model Braenaru**

- O'i gymharu â'r CAP, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y model Braenaru yn cyflwyno gwelliannau sylweddol o ran profiadau plant a theuluoedd ac o ran effeithlonrwydd y system. Cydnabuwyd bod canolbwyntio ar 'lais y plentyn'[4] mewn achosion yn agwedd bwysig ar roi'r model Braenaru ar waith. Roedd hyn yn cynnwys gwrando ar farn plant a'i pharchu yn llawer cynharach yn y broses, o'i gymharu â'r CAP.
- Awgrymodd y cyfranogwyr fod gwella'r broses o gasglu gwybodaeth – a chwblhau'r asesiad yn gynharach yn y broses – yn rhan hanfodol o lwyddiant y model Braenaru. Roeddent yn teimlo bod yr Adroddiad am yr Effaith ar y Plentyn, sy'n cynnwys cyfraniadau gan wasanaethau cymorth cam-drin domestig yn ôl y gofyn, yn allweddol o ran casglu gwybodaeth a'i hasesu'n gynnar yn y broses.
- Roeddent o'r farn bod proses y llys yn fwy effeithlon o dan y model Braenaru na phroses y CAP. Awgrymodd y cyfranogwyr fod achosion yn dod i ben yn gyflymach yn sgil gwella'r prosesau cyfathrebu a chasglu gwybodaeth, a bod nifer

[4] Cydnabyddir hawl plentyn i gymryd rhan ac i gael ei lais wedi'i glywed mewn achosion yn y canllawiau a'r ddeddfwriaeth fel ffordd o osod sail ar gyfer penderfyniadau sy'n seiliedig ar les ac o gynnal hawliau plant. Cyfeirir at hyn yn aml fel clywed 'llais y plentyn'. Gall plant gymryd rhan mewn achosion perthnasol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy ymgysylltu â Chynghorydd Llys Teulu neu weithiwr cymdeithasol awdurdod lleol pan fydd adroddiad yn cael ei lunio, drwy i'r llys benodi Gwarcheidwad Plant, drwy i'r plentyn gwrdd â'r barnwr neu ysgrifennu llythyr ato neu, mewn achosion prin, drwy i'r plentyn roi tystiolaeth yn y llys.

y gwrandawiadau ym mhob achos wedi gostwng yn sylweddol. Tybiwyd mai un o brif fanteision y Cynllun Braenaru i deuluoedd ac i'r system oedd bod rhaid treulio llai o amser yn y llys.

- Tybiwyd bod gwaith y Swyddogion Cynnydd Achosion, rôl newydd a sefydlwyd ar gyfer y Cynllun Braenaru, yn allweddol i roi'r model ar waith. Roedd y Swyddogion Cynnydd Achosion yn sicrhau bod amserlenni'n cael eu bodloni, bod achosion yn cael eu rheoli'n effeithlon, bod y cyfathrebu'n cael ei gydgysylltu, a bod cymorth yn cael ei ddarparu i deuluoedd.
- Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd fod y Cynllun Braenaru'n lleihau'r risg o aildrawmateiddio dioddefwyr-goroeswyr cam-drin domestig, yn oedolion ac yn blant, yn ystod achosion. Ar y cyfan, bu i'r cyfranogwyr briodoli hyn i broses fwy cefnogol ac i amgylchedd gwell yn y llys. Roedd y ffaith bod gwasanaethau cymorth cam-drin domestig yn chwarae rhan uniongyrchol yn y model Braenaru drwy ddarparu cymorth arbenigol hefyd yn fantais fawr y rhoddwyd gwerth arni.
- Dywedodd y cyfranogwyr fod cydweithredu ar draws asiantaethau a gwaith amlasiantaethol wedi gwella o dan y model Braenaru. Roedd hyn yn cynnwys gwelliant o ran rhannu gwybodaeth ac o ran ymgysylltu rhwng asiantaethau.

**Yr heriau**

Er bod y cyfranogwyr wedi mynegi sylwadau cadarnhaol am fanteision y model newydd, bu iddynt hefyd nodi rhai heriau. Roedd y rhan fwyaf o'r heriau'n ymwneud â rhoi'r broses newydd ar waith, yn hytrach na'r model Braenaru ei hun:

- Er bod y cyfranogwyr yn teimlo bod y Cynllun Braenaru wedi arwain at fanteision helaeth i blant, cydnabuwyd y byddai modd gwneud mwy i ddeall yr hyn y mae rhoi llais y plentyn wrth galon proses y llys yn ei olygu yn ymarferol a'r hyn y mae ar blant ei eisiau o'r achosion.
- Ystyriwyd hefyd fod rheoli newid yn effeithiol yn her. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd cynnwys pobl, ac asiantaethau, allweddol yn y broses o roi'r model ar waith o'r dechrau'n deg. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y byddai hyn yn sicrhau bod staff yn ymgysylltu cymaint â phosibl â'r dull newydd o weithredu ac yn hybu newid diwylliannol o fewn sefydliadau.

- Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y gwaith o reoli achosion etifeddol (achosion CAP nad oeddent wedi’u datrys cyn cyflwyno’r Cynllun Braenaru) ar yr un pryd wedi cymhlethu’r gwaith o gyflwyno’r model Braenaru. Awgrymwyd y gallai fod wedi bod yn fuddiol cael mwy o amser cyn cyflwyno’r model newydd er mwyn lleihau nifer yr achosion CAP a oedd yn weddill.
- Roedd y brif broblem a nodwyd ar y ddau safle peilot yn ymwneud ag adnoddau a chapasiti staffio. Roedd heriau recriwtio ehangach yn golygu nad oedd pob swydd wedi’i llenwi ar ddechrau’r cyfnod peilot.
- Nodwyd bod capasiti gwasanaethau cymorth cam-drin domestig i reoli nifer yr achosion a oedd yn cael eu hatgyfeirio atynt – yn enwedig o ystyried nifer yr achosion lle y cafwyd gwrth-honiadau am gam-drin domestig – hefyd yn her.
- Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y ffaith nad oedd llawer o gymorth ehangach ar gael i deuluoedd (fel cyrsiau magu plant a chanolfannau cyswllt) ac at ddiffyg ymyriadau ar gyfer y rhai sy’n cyflawni cam-drin domestig.
- Dywedodd rhai cyfranogwyr nad oedd digon o eglurder mewn rhai rhannau o broses y Cynllun Braenaru ac, yn enwedig, fod dryswch o ran cylch gwaith swyddi. Er enghraifft, tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd rôl y Swyddog Cynnydd Achosion wedi’i diffinio ac nad oedd ffiniau’r rôl wedi’u pennu.
- O fewn proses y Cynllun Braenaru ei hun, yr unig her a bennwyd oedd y ‘cam adolygu’. Roedd dryswch o ran ei bwrpas, yn ogystal â pha bryd y dylid ei ddefnyddio. Er eu bod yn teimlo bod cynnal ‘ymholiad gwirio’ ar ôl i’r achos ddod i ben yn y llys yn fuddiol mewn rhai achosion, yn enwedig y rheini sy’n ymwneud â cham-drin domestig, nid oedd y cyfranogwyr yn teimlo bod hyn yn angenrheidiol ym mhob achos.

**Dadansoddiad Ariannol Archwiliadol**

Ar sail busnes fel arfer, mae’r dadansoddiad ariannol yn awgrymu bod costau uniongyrchol rhoi’r model Braenaru ar waith yng Ngogledd Cymru ac yn Dorset yn fras yr un fath â chostau uniongyrchol model presennol y CAP yn Swindon ac yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru:

- Ar sail fesul achos, roedd cost fesul achos y ddau safle Braenaru ychydig yn is na’r ddau safle CAP. Yn Lloegr, roedd cost y Cynllun Braenaru bump y cant yn is

na’r CAP (Dorset o’i gymharu â Swindon) ac, yng Nghymru, roedd cost y Cynllun Braenaru un y cant yn is na’r CAP (Gogledd Cymru o’i gymharu â Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru).

- Fodd bynnag, canfu’r dadansoddiad hefyd fod costau’r ddau fodel yn sensitif i newidiadau bach o ran mewnbynnau. Er enghraifft, os yw nifer gyfartalog y gwrandawiadau o dan y CAP un yn llai na’r amcangyfrif, mae’r dadansoddiad yn awgrymu ei bod yn costio mwy i roi’r Cynllun Braenaru ar waith yng Ngogledd Cymru ac yn Dorset na’r CAP yn y llysoedd a ddefnyddiwyd at ddibenion cymharu.
- O ddadansoddi ‘cymhlethdod’ yr achosion, mae’n awgrymu bod achosion mwy ‘cymhleth’ yn costio llai o dan y model Braenaru, tra mae achosion ‘symlach’ yn costio mwy o dan y model Braenaru o’i gymharu â’r ddau lys CAP.[5] Gallai hyn effeithio ar gost-effeithiolrwydd y model Braenaru mewn ardaloedd â phroffiliau gwahanol o ran cymhlethdod yr achosion a geir yn eu llwythi achosion.

Canfu’r dadansoddiad fod effaith ariannol y model Braenaru’n amrywio’n sylweddol ar draws gwahanol rannau o’r system:

- Mae’r model Braenaru’n cynnwys costau ychwanegol ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth cam-drin domestig. Nid yw’r gwasanaethau hyn yn cael eu hariannu gan y system cyfiawnder teuluol o dan y CAP.
- Roedd costau fesul achos rhannau eraill o’r system yn sylweddol is yn y Llysoedd Braenaru o’u cymharu â’r Llysoedd CAP. Yn benodol, gan fod llai o wrandawiadau yn y Llysoedd Braenaru, roedd cost yr amser barnwrol yn sylweddol is yn y Llysoedd Braenaru.
- Er bod y dadansoddiad yn awgrymu bod cyfanswm cost pob achos ychydig yn is yn y Llysoedd Braenaru, bu i’r gofyniad am i Gynghorwyr Llysoedd Teulu Cafcass/Cafcass Cymru gwblhau’r rhan fwyaf o’u gwaith yn ystod chwech i wyth wythnos gyntaf pob achos greu her o ran adnoddau. Cafodd y gwaith gyda theuluoedd ei gywasgu i gyfnod llawer byrrach. Er bod cyfanswm cost pob achos

[5] At ddiben y dadansoddiad hwn, defnyddiwyd dwysedd yr achos o ran adnoddau fel mesur procsi i ddiffinio pa mor gymhleth oedd achos.

yn debyg, bu i hynt y gweithgarwch yr oedd gofyn i weithwyr cymdeithasol ei wneud roi pwysau ar adnoddau Cafcass/Cafcass Cymru.

Gan fod y model Braenaru'n newid proffil y costau yr eir iddynt mewn achos, cyn cyflwyno'r model yn ehangach, mae angen ystyried yn ofalus y modd y caiff adnoddau eu dyrannu ar draws y system cyfiawnder teuluol fesul sefydliad.

Mae cyfyngiadau o ran ansawdd y data a geir yn y system cyfiawnder teuluol, argaeledd y data hynny, a'r gallu i'w cymharu, yn effeithio ar y canfyddiadau. Hefyd, gan fod arferion y llysoedd a chymhlethdod yr achosion yn amrywio o ranbarth i ranbarth, gall fod nad yw'r canfyddiadau hyn yn gynrychioliadol o'r system gyfan. O'r herwydd, gall fod mai cyfyngiadau'r data neu wahaniaethau rhwng arferion llysoedd lleol sydd i gyfrif am y gwahaniaethau o ran costau rhwng gwahanol ardaloedd llysoedd a rhwng y Cynllun Braenaru a'r CAP, yn hytrach na gwahaniaethau gwirioneddol rhwng costau'r ddau fodel.

Nid oedd modd i'r dadansoddiad hwn ystyried pob un o gostau a manteision ehangach y model Braenaru. Er enghraifft, bu i gyfranogwyr fynegi barn am fanteision eraill y Cynllun Braenaru, fel eu profiadau o weld llai o achosion yn dychwelyd i'r llys a llai o apeliadau. Ni chafodd y manteision posibl hyn eu cofnodi'n uniongyrchol yn y dadansoddiad ariannol, ond gallent arwain at arbedion effeithlonrwydd hirdymor sylweddol.

**Gwersi o ran cyflwyno'r cynllun yn ehangach**

Ar sail argraffiadau'r cyfranogwyr o'r broses o roi'r Cynllun Braenaru ar waith yng Ngogledd Cymru ac yn Dorset, mae'r tîm ymchwil wedi pennu ystyriaethau pwysig o ran polisi, ymarfer ac ymchwil bellach i osod sail ar gyfer rhoi'r Cynllun Braenaru ar waith mewn ardaloedd daearyddol eraill:

- **Cynnal y ffocws ar y plentyn:** Mae hyn yn ganolog i'r model Braenaru ac mae'r canfyddiadau'n awgrymu y dylid cadw golwg ar arferion y bwriedir iddynt ennyn llais y plentyn, gan gynnwys ystyried yr hyn y mae 'canolbwyntio ar y plentyn' yn ei olygu fesul achos.
- **Casglu gwybodaeth:** Tybiwyd bod casglu gwybodaeth yn gynnar ac mewn modd mwy ymchwiliol gan ddefnyddio'r Adroddiad am yr Effaith ar y Plentyn yn rhan allweddol o'r model Braenaru. O gyflwyno'r model yn ehangach yn y dyfodol, dylid

ystyried sut i barhau i wneud hyn a'i gydbwyso yn erbyn gwneud cynnydd amserol o ran achosion.

- **Ailystyried y cam adolygu:** Gall fod angen ailedrych ar nodau arfaethedig y cam hwn, gan roi mwy o ystyriaeth i'r ffordd y gellir ei roi ar waith, a'i fynegi'n fwy effeithiol.
- **Meithrin partneriaethau effeithiol:** Pan gaiff y model ei gyflwyno mewn ardal newydd, dylid ystyried y ffordd orau o sicrhau cefnogaeth a buddsoddiad pob asiantaeth yn gynnar yn y broses o'i roi ar waith.
- **Ymgysylltu â staff/asiantaethau allweddol:** O safbwynt y cyfranogwyr, roedd cynnwys gwasanaethau cymorth cam-drin domestig, rôl y Swyddog Cynnydd Achosion, a'r tîm craidd sy'n ymwneud â chamau porthgadw'r model yn hanfodol. O gyflwyno'r model yn ehangach yn y dyfodol, dylid ymdrechu i barhau i ddefnyddio'r dull amlasiantaethol hwn o weithredu.
- **Ystyried adnoddau sefydliadau:** Mae'r Cynllun Braenaru'n newid proffil costau achosion, gyda rhai sefydliadau'n wynebu costau uwch ar wahanol adegau ym mhob achos. I gyflwyno'r cynllun yn effeithiol, gall fod angen ystyried yr adnoddau a ddarperir i sefydliadau i reoli'r proffil costau gwahanol hwn.
- **Sicrhau bod staff a chapasiti priodol ar gael:** Cyfeiriodd cyfranogwyr at heriau o ran rhoi'r model ar waith pan oedd safleoedd yn gweithredu islaw'r lefelau staffio gofynnol. I roi'r Cynllun Braenaru ar waith yn effeithiol, bydd yn bwysig bod pob swydd yn cael ei llenwi cyn i'r broses newydd ddechrau.
- **Ystyried capasiti gwasanaethau cymorth cam-drin domestig:** Nodwyd bod gwasanaethau cymorth cam-drin domestig yn rhan annatod o lwyddiant y Cynllun Braenaru. O gynnwys gwasanaethau cymorth cam-drin domestig yn y Cynllun Braenaru, dylid ystyried capasiti'r gwasanaethau hyn, nifer yr aelodau staff sy'n gweithio iddynt, a'r adnoddau sydd ar gael ganddynt.
- **Deall y dirwedd o ran gwasanaethau cymorth ehangach:** Er bod hyn y tu allan i gylch gwaith y model Braenaru, dylid ystyried argaeledd cymorth ehangach ar gyfer plant a theuluoedd – er enghraifft, mynediad at ganolfannau cyswllt, cyngor i deuluoedd am fagu plant, ac ymyriadau ar gyfer y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig.

- **Rheoli’r broses o bontio i’r model Braenaru:** Dylid ystyried sut i reoli’r broses bontio pan fydd achosion Braenaru ac achosion CAP etifeddol ar waith ochr yn ochr â’i gilydd i gychwyn.
- **Parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant ar y cyd:** Bydd parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant ar y cyd a hyfforddiant cam-drin domestig sy’n berthnasol i swyddi penodol yn allweddol i gefnogi’r broses o gyflwyno’r Cynllun Braenaru’n llwyddiannus mewn ardaloedd eraill.